# HYSBYSIAD O ETHOLIAD

## Etholiad Senedd y DU
## Ar gyfer etholaeth Gogledd Clwyd

1. Bydd etholiad yn cael ei chynnal ar gyfer Aelod Seneddol i wasanaethu Gogledd Clwyd.

2. Gellir cael papurau enwebu o swyddfa'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN, yn ystod yr amserau a nodir isod.

3. Mae'n rhaid i'r papurau enwebu gael eu danfon i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN ar unrhyw ddiwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10am a 4pm (ac eithrio gŵyl y banc) ond heb fod yn hwyrach na 4pm ar 7 Mehefin 2024.

4. Gellir talu'r ernes o £500 drwy dendr cyfreithiol neu drwy ddrafft banc o dynnwr sy'n cynnal busnes fel banc yn y Deyrnas Unedig, BACS neu cerdyn debyd.

5. Os oes cystadleuaeth ar gyfer yr etholiad bydd y bleidlais yn cael ei chynnal ar ddydd Iau, 4 Gorffennaf 2024.

6. Mae'n rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 hanner nos, ddydd Mawrth,18 Mehefin 2024.

7. Mae'n rhaid i geisiadau newydd i bleidleisio drwy'r post, a diwygiadau neu ganslo pleidleisiau post neu drefniadau pleidleisio drwy ddirprwy presennol gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN erbyn 5pm 19 Mehefin 2024.

8. Rhaid i geisiadau am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr neu Ddogfen Etholwr Dienw sy'n ddilys ar gyfer yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 5pm ar 26 Mehefin 2024. Gellir gwneud ceisiadau am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr ar-lein: [www.gov.uk/ceisio-am-lun-id-tystysgrif-awdurdod-pleidleiswyr](www.gov.uk/ceisio-am-lun-id-tystysgrif-awdurdod-pleidleiswyr).

9. Rhaid i geisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN erbyn 5 p.m. ar 26 Mehefin 2024.

10. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy ar frys yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN erbyn 5 p.m. ar 4 Gorffennaf 2024.

Dyddiad: 31 Mai 2024
Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) Graham Boase

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN ar 31 Mai 2024